# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 22 MEHEFIN 2022, trwy Zoom.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth, ac Arloesi); yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr); Dr Cathryn Charnell-White; yr Athro Hazel Davey; Dr Andrew Davies; Mr Prysor Davies; yr Athro Sarah Davies; yr Athro Iain Donnison; Ms Mared Edwards, Llywydd UMCA; Dr Rebecca Edwards; Dr Gwion Evans; Dr Gabor Gelleri, Mr Penri James, Cadeirydd Cangen PA y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Thomas Jansen; Dr Alex Mangold; Dr Louise Marshall; Mr John Morgan; Mr David Moyle; Dr Heather Norris; Ms Sabina O'Donoghue, Llywydd UMAber; yr Athro Eleri Pryse; a'r Athro Phillipp Schofield. |
| Aelodau heb bleidlais: | Yr Athro Simon Cox; yr Athro Andrew Evans; yr Athro Nigel Holt; yr Athro Emyr Lewis; yr Athro Helen Roberts; Dr Anoush Simon; a'r Athro Andrew Thomas. |
| Yn gweinyddu: | Mr Tim Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Ms Emma Williams, Cofrestrydd Academaidd, a Ms Kath Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol. |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: yr Athro Simon Banham; Guy Baron; Dr Patrick Finney; Ms Rachael Davey; Dr Sarah Higgins; Dr Aloysius Igboekwu; Ms Elizabeth Manners, Swyddog Materion Academaidd UMAber; yr Athro Robert Meyrick; Dr Sarah Wydall, a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

## 44. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. Croeso

   Dr Jamie Medhurst a oedd yn bresennol yn lle'r Athro Simon Banham.

2. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. Yr Athro Ken Walters FRS, cyn Athro yn yr Adran Fathemateg a Chyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol.
   2. Dr Brian Davies, cyn-ddarlithydd biocemeg.
   3. Yr Athro Emeritws Mike Pearson, Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.
   4. Tun Arshad, Cymrawd a fu farw ar 14 Mehefin 2022 yn 93 oed.

**45. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

**46. COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2022 (SEN2122-064).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**47. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2122-065).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

**48. GOHEBIAETH**

Nid oedd unrhyw ohebiaeth i'w gofnodi, ond dymunai'r Is-Ganghellor longyfarch yr Athro Iain Donnison, yr Athro Rhys Jones, yr Athro Colin McInnes a Dr Eryn White ar eu hethol yn Gymrodyr o Gymdeithas Ddysgedig Cymru.

**49. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN2122-066).

NODWYD

1. Roedd tair prif rhan i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Tynnwyd sylw at rai manylion ynglŷn â denu myfyrwyr, yn arbennig y ddibyniaeth ar fyfyrwyr rhyngwladol. Tynnwyd sylw'r aelodau hefyd at y manylion ynghylch pennu cyllidebau am y flwyddyn ariannol nesaf.

3. Nodwyd y byddai data a amlinellwyd o dabl cynghrair y *Complete University Guide* yn cael ei ddiwygio a'i ail-gyhoeddi i adlewyrchu data cyflawn y FfRhY.

**50. Y BWRDD ACADEMAIDD**

1. Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd), ynglŷn â chyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2022 (SEN2122-067).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif eitemau a drafodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd ar 08 Mehefin 2022.

2. Diolchodd yr Is-Ganghellor i'r Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr, Cofrestrydd y Brifysgol, a holl dimau'r staff am eu cyfraniad i sicrhau canlyniad rhagorol yn yr Arolwg Gwella Ansawdd.

3. Gofynnwyd am gymeradwyaeth y Senedd i ddiwygiad i reoliadau gradd DProf ar gyfer dyfarnu gradd MRes neu radd Meistr arall i rai nad ydynt yn cwblhau'r ddoethuriaeth broffesiynol.

4. O ran dyddiadau'r tymor yn 2024-2025, argymhellwyd y dylid cymeradwyo dyddiadau i gynnwys trydydd tymor o bum wythnos, a fydd yn rhoi un wythnos i addysgu, un wythnos i adolygu, a thair wythnos i arholiadau ac asesiadau yn semester 2 (dyddiadau arfaethedig isod).

2. <u>Adroddiad Blynyddol UMAber i'r Senedd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd) (SEN2122-068).

NODWYD

1. Rhoddodd Llywydd yr Undeb grynodeb o'r Adroddiad Blynyddol; gan nodi'r berthynas gadarnhaol ag ysgol y graddedigion a'r myfyrwyr ôl-raddedig yn ystod y flwyddyn, a chan dynnu sylw yn arbennig at y diddordeb yn y croeso a'r ymgynefino i'r myfyrwyr ôl-raddedig.

2. Tynnwyd sylw hefyd at faterion yn ymwneud â chysondeb dulliau a gweithredu polisïau ar draws adrannau.

3. Tynnai'r adroddiad sylw hefyd at rai heriau ynghylch y system Cynrychiolwyr Academaidd a phwysigrwydd a gwerth cydweithio â'r Undeb wrth enwebu ac ethol cynrychiolwyr myfyrwyr.

4. Tynnwyd sylw hefyd at faterion ynghylch arallgyfeirio'r cwricwlwm gan gefnogi'n benodol rhoi dadwladychu yn y cwricwlwm.

3. <u>Adroddiad blynyddol Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol am y flwyddyn galendr yn dod i ben 2021</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (Sicrhau a Gwella Ansawdd) (SEN2122-069).

NODWYD

1. Roedd Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol wedi cyhoeddi ei Datganiadau Blynyddol i ddarparwyr addysg uwch am y flwyddyn galendr a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2021. Nodwyd bod yr holl Ddatganiadau Blynyddol ar gyfer 2021 i'w cael yn https://statements.oiahe.org.uk. Cafodd adroddiad PA ei atodi at sylw'r Senedd.

2. Bu cynnydd bach yn nifer y cwynion a anfonwyd at y Swyddfa a nodwyd cynnydd hefyd yn y llwyth gwaith cysylltiedig ag ymateb i'r materion a gyfeiriwyd.

4. Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu

DERBYNIWYD

Adroddiad llafar gan yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor, Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr);

NODWYD

1. Dywedwyd wrth yr aelodau am gynnig gan y Swyddfa Fyfyrwyr (OfS) i roi'r gorau i gydweithio â'r ASA fel corff ansawdd dynodedig yn Lloegr, ynghyd â chynigion pellach ynghylch diwygiadau i'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA) ac yn benodol yr argymhelliad i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyflawni'r holl feincnodau a gyhoeddwyd i gyflawni safon Aur y Fframwaith. Cyngor cyfredol Llywodraeth Cymru oedd ymneilltuo o'r FfRhA am y cylch i ddod, ac roedd y rhan fwyaf o'r sefydliadau yng Nghymru yn bwriadu dilyn y cyngor. Cyflwynwyd yr argymhelliad hwn hefyd i'r Senedd i'w ystyried a'i gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodi holl adroddiadau'r Bwrdd Academaidd a'r diweddariad ynghylch y FfRhA fel yr amlinellwyd.

3. Trwy gytundeb unfrydol, i gymeradwyo'r mân welliant i reoliadau DProf ac i ddiweddaru'r rheoliad yn unol â hyn: *Bydd ymgeiswyr sydd wedi cwblhau Rhan Un yn llwyddiannus ond nad ydynt am barhau neu os ydynt yn aflwyddiannus yn eu hymgais am DProf, yn gymwys i dderbyn gwobr MProf, MRes neu wobr Meistr arall sy'n ffurfio Rhan Un eu rhaglen astudio.* [**GWEITHREDU:** Dirprwy Gofrestrydd].

4. Trwy gytundeb unfrydol, cymeradwyo dyddiadau'r tymor a gynigiwyd am 2024-2025 a chyhoeddi'r dyddiadau yn unol â hynny [**GWEITHREDU:** Dirprwy Gofrestrydd].

5. Trwy gytundeb unfrydol, i dderbyn yr argymhelliad a amlinellwyd yn yr adroddiad llafar ynglŷn ag ymneilltuo o'r FfRhA [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor, Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr].

**51. BWRDD Y DDARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL**

1. Adroddiad o Fwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Sarah Jones, Cofrestrydd Cynorthwyol - Partneriaethau Academaidd (SEN2122-070).

**52. MATERION LLYWODRAETHU:**

1. Canlyniad arolwg o'r Dogfennau Llywodraethu

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kath Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN2122-071).

NODWYD

1. Gwahoddwyd yr aelodau i nodi'r dogfennau llywodraethu a gynhwyswyd yn yr adroddiad, yn cynnwys Ordinhadau, Rheolau Sefydlog y Cyngor, Ystatud a Siarteri. Yn benodol, gwahoddwyd aelodau i argymell i'w cymeradwyo y diwygiadau arfaethedig i Ordinhad 21 Unedau Academaidd. Roedd y diwygiadau hyn yn adlewyrchu'r cynnig i ad-drefnu IBERS yn ddwy uned newydd, sef adran academaidd a sefydliad ymchwil. Cafodd y cynnig ei dderbyn a'i argymell trwy gymeradwyaeth yn y Senedd ym mis Mawrth 2022, a'i gymeradwyo'n ffurfiol yn y Cyngor ym mis Mai 2022.

**PENDERFYNWYD**

2. Trwy gytundeb unfrydol, i gymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i Ordinhad 21, yn amodol ar ddileu'r gair *Adran* cyn Gwyddorau Bywyd [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

2. Canlyniadau holiaduron hunanasesu'r pwyllgorau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kath Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN2122-072).

NODWYD

1. Rhwng 27 Ebrill ac 20 Mai 2022, gwahoddwyd aelodau'r Senedd i lenwi holiadur er mwyn rhoi adborth adeiladol ynglŷn ag effeithlonrwydd y corff llywodraethu yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol. Byddai'r adborth a ddaeth i law yn cael ei drafod yn fanylach. Fodd bynnag, ar sail yr adborth a dderbyniwyd, gofynnwyd i aelodau ystyried trefnu cynnal pob cyfarfod wyneb yn wyneb o'r flwyddyn academaidd nesaf.

**PENDERFYNWYD**

2. I nodi'r adroddiad fel yr amlinellwyd ac i gymeradwyo'r cynnig i drefnu cyfarfodydd y Senedd wyneb yn wyneb trwy gydol y flwyddyn academaidd nesaf [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**53. POLISI CYNALIADWYEDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor a Dewi Day, Ymgynghorydd yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd (SEN2122-073).

NODWYD

1. Gofynnwyd i'r Senedd gymeradwyo'r Datganiad Polisi, a gymeradwywyd yn wreiddiol yn 2020, yn amodol ar unrhyw welliannau neu ddiwygiadau a awgrymwyd. Yn dilyn hyn, byddai'r Datganiad Polisi yn cael ei anfon ymlaen i'r Cyngor fel y bo'n briodol.

2. Roedd yr aelodau'n amau'r defnydd o'r gair 'amddiffyn' yn y pwynt bwled agoriadol, gan fod hynny'n awgrymu bod dyletswydd statudol ar y Brifysgol, ac nid oedd hynny'n wir. Awgrymwyd y gallai 'lleihau niwed' i'r amgylchedd fod yn fwy priodol.

3. Nid oedd y polisi yn cynnwys yr uchelgais i fod yn garbon niwtral ac fe ellid ei ystyried.

4. Cytunwyd y byddai'r polisi yn ddefnyddiol ochr yn ochr â chynllun gweithredu a ddisgwylid yn y dyfodol. Nodwyd hefyd y gallai cyfeiriadau at bolisïau allanol (cenedlaethol a rhyngwladol) gael eu croesgyfeirio'n ddefnyddiol yn y ddogfen bolisi.

**PENDERFYNWYD**

5. Nodi'r polisi fel y nodwyd a chytuno i ystyried y pwynt a godwyd [**GWEITHREDU:** Arweinydd Gweithredol Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd].

6. Dod â chynllun polisi a gweithredu diwygiedig gerbron cyfarfod o'r Senedd yn y dyfodol [**GWEITHREDU:** Arweinydd Gweithredol Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd].

**54. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Derbyniodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad o'r *Coleg Cymraeg Cenedlaethol* (SEN2122-074);

2. Grantiau Ymchwil (SEN2122-075);

3. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN2122-076) a

NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiadau eraill a gyflwynwyd er gwybodaeth.

**55. COFNODION PWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

1. Adroddiad yn cynnwys y cofnodion canlynol (SEN2122-077):

    1. Y Bwrdd Academaidd (08 Mehefin 2022);

    2. Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr (18 Mai 2022);

    NODWYD

2.1. Cyfeiriwyd aelodau at yr adran ynghylch Ehangu Cyfranogiad gan nodi bod yr agenda hwn yn debygol o gael momentwm pellach ar ôl creu'r Cyngor ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil a disodli CCAUC fel y corff rheoleiddio ac ariannu yng Nghymru.

2.2. Roedd y sefydliad wedi cael ei ymwneud yn ffurfiol gyda'r mater yn ogystal â'r data ynglŷn ag Ehangu Cyfranogiad yn fanylach, ac roedd yr adroddiad am y papur a amlinellwyd yn y cofnodion yn adlewyrchu'r ymateb i hyn. Cymeradwywyd yr adroddiad i'r Senedd fel ffynhonnell gwybodaeth sy'n hanfodol i safle'r sefydliad yn yr amgylchedd rheoleiddio allanol newydd. Tynnwyd sylw'r aelodau hefyd at y camau gweithredu a atodwyd at yr adroddiad.

2.3. Dywedwyd hefyd wrth y Senedd am ddiwygiad i bwyntiau 5.3 a 5.i yng nghofnodion y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr o dan PENDERFYNWYD: dylid newid cod y cynllun o G110 i G100.

**PENDERFYNWYD**

i I nodi'r adroddiad a'r camau gweithredu a amlinellwyd ynglŷn â data Ehangu Cyfranogiad.

ii Diwygio codau'r cynllun yn y cofnodion fel yr amlinellwyd uchod [**GWEITHREDU:** Cofrestrydd Cynorthwyol].

3. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (25 Mai 2022); a

4. Y Cyngor (12 Mai 2022).

NODWYD

5. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.

**56. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL**

NODWYD

1. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried eitemau ar gyfer Diwrnod Encil y Senedd ym mis Medi a rhoi gwybod i Ysgrifennydd y Brifysgol ynglŷn ag eitemau trafod a fyddai o ddiddordeb erbyn diwedd y graddio. Ar hyn o bryd, roedd yr eitemau sy'n cael eu hystyried yn cynnwys lles myfyrwyr ac amser ymchwil. Nododd yr aelodau hefyd y byddai'n amserol cael trafodaeth ynglŷn â'r ymateb sefydliadol i gynaliadwyedd a materion amgylcheddol.
2. Diolchwyd i Penri James ar ddiwedd ei gyfnod yn Gadeirydd Cangen Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
3. Diolchwyd hefyd i Sabina O'Donoghue am ei chyfraniad yn Llywydd Undeb y Myfyrwyr.
4. Roedd tymor Simon Banham yn Bennaeth yr Adran Theatr, Ffilm a Theledu yn dod i ben yn ogystal â'i dymor ar y Senedd, a diolchwyd iddo yntau am ei gyfraniad.
5. Diolchwyd hefyd i Kath Williams am ei chyfraniad yn Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro.